

Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol (ICTAs)



Pwy ydyn ni?

Mae Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu mewn Plant (ICTAs) yn weithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth i blant a allai fod wedi cael eu masnachu.

Cafodd darpariaeth ICTAs ei dreialu gan Barnardo's yn 2014 a 2015 ac rydyn ni bellach wedi sefydlu tri safle mabwysiadu cynnar ledled Cymru a Lloegr.

Amlinellir rôl ICTAs yn adran 48 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn y canllawiau interim canlynol:

[Cyfarwyddyd Dros Dro i'r tri Safle Mabwysiadu Cynnar ar Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol](#)

Beth yw eich rhan chi?

Mae **pob** Awdurdod Lleol yng Nghymru, Manceinion Fwyaf, Hampshire ac Ynys Wyth cael eu dewis i fod yn safleoedd mabwysiadu cynnar ar gyfer ICTAs.

Golyga hyn fod pob plentyn sy'n cael ei ddatgan fel plentyn a allai fod wedi cael ei fasnachu yn yr ardaloedd hynny yn **gorfod** cael ei gyfeirio at Wasanaeth ICTAs Barnardo's yna bydd un ICTA yn cael ei neilltuo ac yn cysylltu â'r plentyn o fewn 24 awr.

Gall cyfeirio'n gyflym ar ôl canfod plentyn fod yn gymorth i gefnogi lleihau'r nifer sy'n mynd ar goll neu'n cael eu hailfasnachu.

Beth rydyn ni'n ei wneud?

Cynorthwyo plant i ddeall sut mae systemau gofal cymdeithasol, mewnfudo a chyfiawnder troseddol yn gweithio.

Sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed.

Darparu eiriolaeth ac arweiniad, a chyfeirio at wasanaethau perthnasol.

Sicrhau bod plant yn cael eu cyfeirio at y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

Cynorthwyo plant i gadw'n ddiogel a gweithio tuag at atal ailfasnachu.

Codi ymwybyddiaeth o'r gwaith gyda phlant sydd wedi cael eu masnachu a chefnogi gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith gyda nhw.

Beth i'w wneud nesaf?

Cyfeirio:

Ffoniwch ein Llinell Gyfeirio 24/7 a gallwn eich cynorthwyo i gyfeirio plentyn dros y ffôn.

Neu anfonwch ffurflen gyfeirio wedi'i llenwi at ein blwch post diogel.

Dyma'r ffurflen gyfeirio:

[Ffurflen Gyfeirio'r Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Masnachu Plant](#)